**Ken Skates AS/MS**
**Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru**
**Minister for Economy, Transport and North Wales**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref :

Russell George AS
Cadeirydd
Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

3 Mawrth 2021

Annwyl Russell,

**MAES AWYR CAERDYDD**

Ysgrifennaf atoch i rannu'r Datganiad Ysgrifenedig â chi y byddaf yn ei gyhoeddi cyn hir heddiw ynghylch cymorth i Faes Awyr Caerdydd yn y dyfodol.

Mae COVID-19 wedi cael effaith ar fywydau pob un ohonom na ellid bod wedi'i rhagweld, yn lleol ac o gwmpas y byd. Mae'r pandemig yn parhau i amharu'n fawr ar bob agwedd ar ein bywydau a'r economi, ac mae'r diwydiant teithio ymhlith y rhai sydd wedi teimlo'r ergyd fwyaf, wrth i fwy neu lai holl hediadau teithwyr gael eu hatal, meysydd awyr gwag a fflydoedd cyfan yn aros ar y ddaear.

Yn ogystal â'r pecyn cymorth newydd rydym eisoes wedi'i gynnig i gefnogi unigolion a busnesau ledled Cymru, heddiw, byddaf yn cyflwyno pecyn ariannol i ddarparu cymorth penodol i Faes Awyr Rhyngwladol Caerdydd Cyf. yn y tymor canol, yn erbyn cynllun achub ac adfer pum mlynedd. Mae hyn yn sicrhau y byddwn yn adennill y swm mwyaf posibl o'n buddsoddiad benthyciad ac yn sicrhau bod y maes awyr yn gynaliadwy wrth gynnig yr opsiwn isaf o ran cost gydol oes. Dyma'r ffordd orau ymlaen yn nhelerau masnachol/buddsoddwr y farchnad yn unig, gan gydnabod y risgiau a'r ansicrwydd o fewn y diwydiant na ellir eu hosgoi yn sgil yr argyfwng byd-eang.

Bydd y pecyn cymorth nid yn unig yn sicrhau dyfodol miloedd o swyddi, yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol, ond bydd hefyd yn parhau i sicrhau bod gan Gymru le ar y llwyfan byd-eang – gan ddiogelu ein maes awyr rhyngwladol sy'n rhan hanfodol o'n seilwaith trafnidiaeth.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Ken.Skates@llyw.cymru
Correspondence.Ken.Skates@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Caiff y cynllun achub ac adfer ei reoli yn ôl ei berfformiad yn rheolaidd er mwyn gwerthuso a diogelu ein buddsoddiad parhaus. Yn ogystal â hynny, mae fy swyddogion hefyd yn y broses o adolygu llywodraethiant Maes Awyr Caerdydd a chryfhau'r rôl y bydd Holdco yn ei chwarae yn y dyfodol. Rhoddaf wybod i chi beth fydd canlyniad y trafodaethau hynny maes o law.

Caiff manylion llawn y pecyn cymorth ariannol eu nodi yn y Datganiad atodedig, a byddaf yn bresennol yng nghyfarfod Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau ar 10 Mawrth.

Yn gywir

**Ken Skates AS/MS**
Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru
Minister for Economy, Transport and North Wales